**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2003 Rhif 1720 (Cy.187)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991 (O.S. 1991/2839) ("y prif Reoliadau"), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 1996/672 ac fel y'u diwygiwyd ymhellach, fel y maent yn gymwys i Gymru a Lloegr, gan O.S. 2000/1973 ac O.S. 2002/1559, i ganiatáu i awdurdodau casglu gwastraff gyflwyno i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo gadw disgrifiad ysgrifenedig o wastraff a nodyn trosglwyddo o dan y prif Reoliadau hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw roi i'r awdurdod casglu gwastraff yn ei swyddfa, o fewn cyfnod penodedig, y disgrifiadau ysgrifenedig hynny o'r gwastraff a'r nodiadau trosglwyddo a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 No. 1720 (W.187)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Environmental Protection (Duty of Care) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Environmental Protection (Duty of Care) Regulations 1991 (S.I. 1991/2839) ("the primary Regulations"), as amended by S.I. 1996/672 and as further amended, as they apply to England and Wales, by S.I. 2000/1973 and S.I. 2002/1559, to allow waste collection authorities to serve on any person who is required to keep a written description of waste and a transfer note under the primary Regulations a notice requiring that person to furnish to the waste collection authority at its office, within a specified period of time, such written descriptions of waste and transfer notes as are specified in that notice.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 1720 (Cy.187)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *9 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | *31 Gorffennaf 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 34(5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**a**) ac sydd yn awr yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru(**b**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991**

**2**. Yn rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991(**c**) -

(a) yn lle'r geiriau "served by a waste regulation authority" rhodder "served by either a waste regulation authority or an authority which is a waste collection authority for the purposes of Part II of the 1990 Act"; a

(b) yn lle'r geiriau "furnish the authority with a copy of it at the authority's office" rhodder "furnish that authority with a copy of it at that authority's office".

(a) 1990 p.43; mae yna ddiwygiadau eraill i adran 34 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru, yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) .

(c) O.S. 1991/2839, fel y'i diwygiwyd gan reoliad 23 o O.S. 1996/972 ac, fel y mae'n gymwys i Gymru a Lloegr, gan reoliad 39 ac Atodlen 10, Rhan 2, paragraff 26 o O.S. 2000/1973 a rheoliad 19 o O.S. 2002/1559. Diwygiwyd y Rheoliadau hefyd, mewn perthynas â'r Alban, gan reoliad 36 o O.S.A. 2000/323, ac mewn perthynas â Lloegr, gan reoliad 3 o O.S. 2003/63.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 1720 (W.187)

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Environmental Protection (Duty of Care) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *9th July 2003* |
| *Coming into force* | *31st July 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 34(5) of the Environmental Protection Act 1990(**a**) and now exercisable by the National Assembly for Wales in relation to Wales(**b**), hereby makes the following Regulations:

**Citation , commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Environmental Protection (Duty of Care) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 31st July 2003.

(2) The Regulations apply to Wales.

**Amendment of regulation 4 of the Environmental Protection (Duty of Care) Regulations 1991**

**2**. In regulation 4 of the Environmental Protection (Duty of Care) Regulations 1991(**c**) -

(a) for the words "served by a waste regulation authority" substitute "served by either a waste regulation authority or an authority which is a waste collection authority for the purposes of Part II of the 1990 Act"; and

(b) for the words "furnish the authority with a copy of it at the authority's office" substitute "furnish that authority with a copy of it at that authority's office".

(a) 1990 c.43; there are amendments to section 34 not relevant to these Regulations.

(b) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales, in relation to Wales, by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1991/2839, as amended by regulation 23 of S.I. 1996/972 and, as it applies to England and Wales, by regulation 39 and Schedule 10, Part 2, paragraph 26 of S.I. 2000/1973 and regulation 19 of S.I. 2002/1559. The Regulations have also been amended, in relation to Scotland, by regulation 36 of S.S.I 2000/323 and, in relation to England, by regulation 3 of S.I. 2003/63.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

9 Gorffennaf 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

9th July 2003

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 Rhif 1720 (Cy.187)

## 2003 No. 1720 (W.187)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (Diwygio) (Cymru) 2003

The Environmental Protection (Duty of Care) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

© Crown copyright 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090752-3

9 780110 907529

**£1.75**

W121/07/03 ON